## CYNGOR TREF DOLGELLAU

Cofnodion o Bwyllgor Cyngor Tref Dolgellau a gynhaliwyd ar nos Fawrth, Chwefror 4, 2025 yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau am 7.00 o'r gloch.

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Ywain Myfyr (Maer)
Y Cynghorydd Bob Gunton (Dirprwy Faer)
Y Cynghorwyr John Cadwaladr, Nia Evans, Jo Checkley, Sion Edwards, Branwen Rhys Dafydd, Nia Wyn Evans, Jessica John, Llinos Rowlands, Peter Jones, Ray Peters, Heilyn Williams
Mr Rhys Williams – Clerc

**Hefyd yn Bresennol:**
Rhian George, Rheolwr Rhaglenni Adfywio, ac Elin Wiliam, Swyddog Adfywio, i drafod y Cynllun Canol Tref a materion adfywio.

**C.74.2024-2025 SESIWN CYHOEDDUS**
Dim aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

**C.75.2024-2025 YMDDIHEURIADAU**
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Dyfrig Siencyn a Branwen Rhys Dafydd.
Croesawyd yr aelod newydd, Llinos Rowlands.

**C.76.2024-2025 DATGANIADAU O DDIDDORDEBAU PERSONOL YN DEILLIO O UNRHYW WYBODAETH YN YMWNEUD A'R CYFARFOD**
Derbyniwyd y datganiadau canlynol:
Jessica John – Cynllun adfywio canol Tref Dolgellau.
Peter Jones – Cais am arian, Dolgellau Guides and Brownies.
Sion Edwards – Dyfynbris ar gyfer hysbysfwrdd i'r Cyngor Tref.

**C.76.2024-2025.2 Cyflwyniad gan Rhian George, Rheolwr Rhaglenni Adfywio, ac Elin Wiliam, Swyddog Adfywio, i drafod y Cynllun Canol Tref a materion adfywio - Gweler atodiad (**
Derbyniwyd cyflwyniad ar yr uchod a chafwyd trafodaeth a gofynnwyd cwestiynau ar y cynllun**. –** copi o'r linc ar lein i ddilyn
**Penderfynwyd:** I'r Cyngor Tref ymrwymo i'r cynllun ac i chwarae rhan yn y prosiect. Cytunwyd i sefydlu Is-bwyllgor i weithredu ar hyn i gyfarfod yn rheolaidd megis: Ywain Myfyr, Bob Gunton, Branwen Rhys Dafydd, Jessica John, John Cadwaladr, Jo Checkley, Llinos Rowlands.

**C.77.2024-2025 I DDERBYN A CHADARNHAU COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR IONAWR 7, 2025**
Derbyniwyd a chadarnhawyd y cofnodion uchod.

**C.78.2024-2025 MATERION YN CODI O'R COFNODION**

1.1 **MATERION A GODWYD O GOFNODION BLAENOROL**

1. **Coed Ffynnon Fair**
Adroddwyd bod y contractwr David Bradley wedi ymweld â'r goedlan ac mae'r gwaith ar frys wedi ei gyflawni. Dyfynbris pellach i ddilyn ar gyfer gweddill o'r gwaith sydd angen sylw.
**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth.

2. **Gofeb Barhaol - Llyn Penmaen**
**Cyflwynwyd:** Adborth gan y Cynghorydd Nia Evans yn adrodd bod trafodaethau gyda'r Parc Cenedlaethol yn parhau a bod dyfynbris am gofeb barhaol ar waith. Bydd cais am gyngor o

flaen cyflwyno cais cynllunio yn cael ei baratoi a thrafodaeth ar steil y llythrennau ar y gofeb yn cael ei drafod gyda'r Parc Cenedlaethol.
**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth gyda diolch.

3. **Problemau Parcio rhwng banc HSBC a Siop Hosbis yn y Sgwâr**
**Cyflwynwyd:** Dim cynnydd ar y mater yma ar hyn o bryd.
**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth. Cadw ar yr agenda.

4. **Rhaglen Ymrwymiad Cymunedol**
**Cyflwynwyd: Diweddariad ar sawl pwynt gweithredu o gyfarfod mis Hydref 2023 y Cyngor megis:**

**i) Trefnu ymchwiliad i sefydlu Bwrdd Arddangos penodol i'r Cyngor:**
**Cyflwynwyd:** Dyfynbrisiau wedi ei dderbyn drwy'r Clerc.
Derbyn y wybodaeth a derbyn y dyfynbris canlynol megis £2228.20.

**Materion pellach yn codi:**

ii) **Parc Sglefrolio**
Dim i'w adrodd ar y funud.
**Penderfynwyd**: Derbyn y wybodaeth.

iii) **Seti Cyhoeddus – adolygiad**
**Cyflwynwyd:** Gwybodaeth bod 10 x seti bellach wedi cyrraedd yn safle Wynnstay.
**Penderfynwyd:** I'r Maer a'r Clerc cydweithio i gytuno ar safleoedd i'w sefydlu. Lleoliadau ar gyfer y 5 set ar gyfer y Marian i sylw'r Cynghorydd Jo Checkley.

iv) **Trwydded Adloniant Cyhoeddus i'r Sgwâr**
Adroddwyd y bydd sylw i gwblhau'r drwydded yn ystod mis Chwefror a Mawrth 2025.
**Penderfynwyd**: Derbyn y wybodaeth.

v) **Cerbyd yn y Lawnt**
Dim adroddiad pellach wrth law.

x) **Rheolau parcio yn y dref gan gynnwys Maes Parcio'r Marian**
Dim adroddiad pellach wrth law.

**C.79.2024-2025** **SEFYLLFA ARIANNOL AC I BENNU PRAESEPT AM Y FLWYDDYN ARIANNOL 2025-2026**

Derbyniwyd y sefyllfa ariannol gan y Clerc gan gynnwys adroddiad o'r Is-bwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar Ionawr 21, 2025.
**Penderfynwyd**: Gosod praespet o £77,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025-2026 - sef dim cynnydd ac i gymeradwyo'r taliadau grantiau a dderbyniwyd, gan gynnwys ychwanegiad o un cais oddi wrth Ddolgellau Browns and Brownies o £440.00.

**C.80.2024-2025 SESIWN RHANNU GWYBODAETH AC ADRODDIADAU**

1. <u>**Adroddiadau aelodau'r Cyngor Tref**</u>

i) **Y Cynghorydd Ywain Myfyr –** hoffwn i'r Cyngor gefnogi'r ymgyrch gan Grŵp yr Aran i gychwyn gosod 'placiau' hanesyddol ar rai o adeiladau'r dref i nodi man geni, cartref neu ddigwyddiad hanesyddol.

Efo hyn mewn golwg - Yn dilyn erchyllderau'r Rhyfel Byd Cyntaf cynhaliwyd cynhadledd o Gynghrair Undeb y Cenhedloedd yn Aberystwyth lle cytunwyd i geisio uno merched Cymru a'r Unol Daleithiau mewn ymgyrch i greu byd heb ryfeloedd. Aeth grŵp o ferched o Gymru ati i hel enwau ar ddeiseb heddwch a fyddai'n cael ei arwyddo gan filoedd o ferched yng Nghymru a'r Unol Daleithiau. Un o grŵp bychan o ferched a aeth a'r ddeiseb i America oedd Mary Ellis a gafodd ei geni a'i magu yn Nolgellau.

Bu'r ddeiseb mewn amgueddfa yn America tan 2023 pryd y dychwelwyd i Gymru. Gellir bellach edrych ar y ddeiseb ar wefan y Llyfrgell Genedlaethol a diddorol yw gweld enwau llawer o drigolion y dref ar y ddeiseb gan gynnwys aelodau o'm teulu a chwithau o bosib.

Hoffwn i'r Cyngor gefnogi ymdrechion y Sesiwn Fawr a Grŵp yr Aran i osod plac ar y cartref lle ganwyd a magwyd Mary Ellis – Plas Newydd. Byddai'r plac yma yn gyntaf o gyfres yn nodi hanes Dolgellau a'r bwriad yw ei ddadorchuddio ar brynhawn Sadwrn y Sesiwn Fawr eleni.

Gwnaed dipyn o ddifrod yng Nghoed Ffynnon Fair yn dilyn y stormydd diweddar. Yn anffodus disgynnodd dwy goeden sylweddol gan niweidio adeiladau allanol Bryn Mair. Wedi ymweliad pellach heddiw, rwy'n falch i adrodd fod y coed bellach wedi clirio o Bryn Mair a bod y contractwyr wrthi pnawn 'ma yn gwneud rhai o'r coed eraill yn ddiogel.

ii) **Y Cynghorydd Bob Gunton** - gwaith ar y gweill gyda Chloc Plas Newydd ar dop y Sgwâr

iii) **Y Cynghorydd Nia Evans** - gwaith 'Lle yn y Dref' yn parhau i fynd o nerth i nerth. Wedi mynychu digwyddiad yn y Clwb Rygbi parthed penodi Brenhines Carnifal Dolgellau

iv) **Y Cynghorydd Jo Checkley - copi meddal i ddilyn**

v) **Y Cynghorydd John Cadwaladr** - wedi mynychu cyfarfod o Ymddiriedolaeth Dr Daniel Williams, gwaith Lle yn y Dref ac Is-bwyllgor Cyllid y Cyngor ar Ionawr 21, 2025.

vi) **Y Cynghorydd Sion Edwards** - Digwyddiad Pencampwyr Pêl droed o Goleg Meirion / Dwyfor.

vi) **Y Cynghorydd Jessica John** - Gwaith datblygu yn ymwneud a Chanolfan Deulu'r dref.

ix) **Y Cynghorydd Peter Jones** – Diweddariad ar atgyfodi wal Coed Ffynnon Fair – bydd hyn yn digwydd yn ystod Ebrill 2025.

x) **Y Cynghorydd Ray Peters** - Wedi adnabod gwaith ynghlwm a boeleri diogelwch yn ardal Ffordd y Gader / Ffordd y Gader gan Gyngor Gwynedd

xi) **Y Cynghorydd Heilyn Williams** – Gwaith yn ymwneud a rhaglen CCTV y dref – cais am gyfraniad ariannol o’r Cyngor i ddilyn.

**C.81.2024-2025** **GOHEBIAETH**

1. Cyngor Gwynedd - Rhaglen waith ar gyfer Grŵp Ardal Ni.
**Penderfynwyd:** Gofyn iddynt ychwanegu difrod y ffens ger mynediad i Faes Parcio rhif 1 y Marian ger hysbysfwrdd gwybodaeth y diwylliant gwlân y dref .

**C.82.2024-2025** **CYNLLUNIO**

Cais Rhif: NP5/57/LB361K
Dymchwel y storfa bresennol, newidiadau i'r modurdy, gosod giât ac ail-wynebu’r iard
Meirion House, Porth Canol, Dolgellau. LL40 1RE
Cyfeiriad Grid: 272766 317737

**Penderfynwyd:** Cefnogi’r Cais